

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>13 Mehefin 2019</b>
<b>Swyddog/Aelod Arweiniol:</b>	<b>Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio / Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Swyddog Cynllunio a Pherfformiad</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Chwefror 2019</b>

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Y wybodaeth ddiweddaraf ar yr adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (gellir dod o hyd i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gyflawn, yn atodiad 1).

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr adolygiad diweddaraf o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried y diwygiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (atodiad 2), ac yn cael cyfle i wneud sylwadau.

## **4. Manylion yr adroddiad**

- 4.1 Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn galluogi'r Cyngor i reoli tebygolrwydd ac effaith y risgiau y mae'n eu hwynebu drwy werthuso effaith unrhyw gamau a gymerir ar hyn o bryd i liniaru risg, a chofnodi dyddiadau cau a chyfrifoldebau am gamau gweithredu pellach a ddylai sicrhau gwell rheolaeth.
- 4.2 Y Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet sydd wedi datblygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol<sup>1</sup>, a nhw sydd yn berchen arni. Caiff ei hadolygu'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn ystod sesiwn friffio'r Cabinet. Fodd bynnag, fel dogfen fyw, caiff ei diwygio yn ôl yr angen trwy gydol y flwyddyn.
- 4.3 Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol, caiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu

---

<sup>1</sup> Gellir dod o hyd i'n canllaw ar reoli risgiau, gan gynnwys y matrices ar <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/strategaethau-corrfforaethol/strategaeth-rheoli-risg.aspx>. Gellir dod o hyd i'r matrices yn atodiad 3.

Corfforaethol er gwybodaeth. Caiff ei rhannu hefyd gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Pennaeth Archwilio Mewnol ac Arweinydd Swyddfa Archwilio Cymru.

4.4 Ers yr adolygiad a gyflawnwyd yn ystod hydref 2018, bu'n rhaid ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg bargaen Brexit ac roedd rhai camau gweithredu i fod i gael eu cwblhau. O ganlyniad, gwnaed rhai mân newidiadau, ac mae'r rhain wedi'u hamlygu yn atodiad 2.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Diben y Gofrestr Risg Gorfforaethol yw amlygu digwyddiadau posibl yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu'r cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r camau rheoli a gweithredu a amlygir felly'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol.

## **6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae costau datblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?**

Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn dogfennu risgiau sydd wedi'u canfod, a'r camau lliniaru cyfredol ac arfaethedig. Nid yw'r broses o ddatblygu ac adolygu'r ddogfen ei hun yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r nodau lles. Fodd bynnag, rhaid cael aseiad effaith ar les i gyd-fynd ag unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy'n cael eu llunio o ganlyniad i gam lliniaru, ar lefel darparu gwasanaeth.

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae manylion y broses ymgynghori i adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi'u cynnwys ym mharagraff 4.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r broses sydd wedi'i hamlinellu yn yr adroddiad hwn i ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

## **10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2 Mae Adran 7.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn mynnu y dylai'r gwasanaeth Archwilio adolygu neu archwilio penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor, boed hynny gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor.

**Swyddog Cyswllt:**

Swyddog Cynllunio a Pherfformiad: Tîm Cynllunio Strategol

Ffôn: 01824 708075